

Cofion

Danfônwn ein cofion heddiw at Roberta Hughes (Groes) sy'n Ysbyty'r Royal, Lerpwl ac at Elsa Evans (Llanefydd) ac Ann Davies (Llanfair) sy'n Ysbyty Glan Clwyd. Yr ydym yn codi y tair gerbron gorsedd gras, gan wybod fod ein Duw yn fwy nag abl i estyn ei law mewn trugaredd a nerth tuag atynt.

Da deall fod Elwyn Roberts (Mostyn, Llansannan) bellach wedi dod adre o'r ysbyty. Yr ydym am gofio hefyd am Annie Griffiths (Llansannan) gafodd ddamwain ddechrau'r wythnos. Hyderwn y bydd pob un o'r uchod, ac eraill yn yr ofalaeth yn profi Duw yn dda y dyddiau hyn.

Llongyfarchiadau arbennig i Ann Davies (Llanfair) sydd wedi dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ddechrau'r wythnos ac i Elwy a Doreen Evans (Tanyfron) ar dathlu priodas aur.

Hyn ac Arall

- Diolch i bawb ohonoch a fentrodd i entychion yr Wyddfa ddydd Llun ar gyfer lansio 'Drwy'r Beibl, Drwy'r Flwyddyn'. Cawsom ddiwrnod arbennig, a pob munud o'r profiad yn un gwerthfawr o'r cerddwr ieuengaf – Tomos Wilks, i'r hynaf – Thomas Williams!! **Mae copïau o'r gyfrol ar gael yma, a gallaf eu cynnig ar ddisgownt am gyfnod.** Os oes rhywun yn dymuno prynu un, gadewch imi wybod. (Dyma fydd llawlyfr yr Ysgol Sul i oedolion am y blynyddoedd 2011-2013)
- Mae Haf Roberts am ddiolch i bawb gynorthwyodd i lwyddiant yr ymdrech i godi arian i gynnal Kimberley, y ferch y mae Ysgol Sul Llansannan yn ei noddi drwy 'Compassion'. Codwyd £330. Diolch yn fawr iawn.
- Mae cynnig i rywun sydd â sgiliau addas i gefnogi Falmai Evans, Saron, i fyw'n annibynol yn ei chartref ac yn ei chymuned. Mi fydd yn cynnwys cymorth personol, tasgau domestig, coginio a gweithgareddau cymdeithasol. Mae angen hyblygrwydd i weithio hyd at 14 awr yr wythnos, ac mae trwydded yrru lawn yn hanfodol. Telir £8.68 yr awr, a gellir cael mwy o fanylion drwy ffonio 0845 602 4614 gan ddyfynnu cyfeirnod JB/FE/DENB

I ddod

- ***SYLWER*** – Cynhelir cyfarfod i **Flaenoriaid y Fro** Nos Fawrth, Tachwedd 16eg yng Nghapel Llanefydd am 7.30.
- **Cynhelir Gwasanaeth Comisiynu Aneurin** bore Sul, Tachwedd 21ain yn Llansannan. Mi fydd hon yn oedfa ar gyfer y Fro gyfan, ac ni fydd oedfa yn y nos.
- **Cyfarfod Chwiorydd Tanyfron** nos Fercher, Tachwedd 24ain am 7.30. Y gŵr gwadd fydd Neville Hughes (Hogiau Llandegai).

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 31^{ain} Hydref 2010

Dalier Sylw

Mae gan y Fro wefan newydd!!!

www.eglwysibroaled.com

www.dawncymru.org

www.eglwysibroaled.com

www.llanw.org

Bore da a chroeso i oedfaon y dydd. Gweddïwn y bydd yr Arglwydd ei hun yn mynd o'n blaen heddiw, ac yn ein bendithio wrth inni addoli, wrth inni geisio ei wyneb. Wrth imi baratoi i ysgrifennu'r pregethau olaf ar eich cyfer fel gweinidog yn y Fro, yr wyf wedi cael achos heddiw (dydd lau) a minnau yn teithio yn y car, i feddwl eto am eiriau sy'n cael ei dyfynnu ym mhregeth gyntaf Pedr. Roedd yn ddydd y Pentecost, a Duw wedi anfon ei Ysbryd Glân ar y disgyblion. Wrth gymhwyso'r digwyddiad, mae Pedr yn dyfynnu'r Proffwyd Joel. "A hyn a fydd yn y dyddiau olaf, medd Duw: tywalltaf o'm Hysbryd ar bawb;a bydd pob un sy'n galw ar enw'r Arglwydd yn cael ei achub." (Actau 2:17-21 (o Joel 2:28-32)) Mae cyd-destun y geiriau yn Joel yn anghyffredin o ddiddorol. Mae'r llyfr yn dechrau trwy sôn am ganlyniad pechod Israel yn nhermau pla o locustiaid yn dod ac yn difa pob cynhaeaf a gadael y tir yn ddiffaith. Trwy'r cwbl, mae'r bobl yn cael eu gadael heb ddim cysur, dim bendith, a dim arwydd o ddyfodol. Mae eu bywydau ofer wedi esgor ar y farn yma ddaeth i'w rhan. Ond, ar ddechrau'r ail bennod ceir newid. Cawn y geiriau arbennig - *Rhwygwch eich calon, nid eich dillad, a dychwelwch at yr ARGLWYDD eich Duw.* "Graslon a thrugarog yw ef, araf i ddigio, a mawr ei ffyddlondeb, ac yn edifar ganddo wneud niwed. Pwy a wŷr na thry a thosturio, a gadael bendith ar ei ôl.... Joel 2:13-14 Ac yna cawn yr addewid fendigedig - "Ad-dalaf ichwi am y blynyddoedd a ddifaodd y locust ar ei dyfiant a'r locust mawr...." 2:25

Beth sy'n arbennig am hyn i gyd? Wel, meddylwch am y sefyllfa. Roedd y bobl yma wedi gwastraffu blynyddoedd o fendith, wedi gwastraffu eu bywydau yn gwneud dim mwy na thalu rhyw wrogaeth ar eu gwefusau i'r Arglwydd. Roedd yna grefydd, ond crefydd allanol oedd y cyfan, rhwygo dillad oedd eu hedifeirwch er mwyn i bobl weld, nid rhwygo'r galon i Dduw gael gweld. Mae popeth yn mynd yn ddiffaith, bywyd ysbrydol yn troi yn anialwch. Ond!!! A dyma 'ond' rhyfeddol. Os oedd y bobl yn barod i geisio'r Arglwydd, i ddod ato i gael eu hachub, mae'n addo, nid yn unig ddyfodol bendigedig, ond hefyd yn addo delio â'r gorffennol. Mae'n addo 'ad-dalu' y blynyddoedd a ddifawyd!!! Meddylwch yn wir - nid yn unig dyfodol bendigedig, ond cael gwneud i fyny am y gorffennol hefyd.

Mae'n siŵr fod yna bethau yn eich gorffennol sydd yn brawf o wastraff, o gefnu ar yr Arglwydd. Mae Duw am 'ad-dalu' ein gorffennol. Efallai fod yna gyfnodau o boen, o salwch, cyfnodau yn yr anialwch - mae Duw am ad-dalu'r blynyddoedd hynny. Mae ganddo fendithion fyrdd yn ôl. A'r allwedd i agor y drws? - galw ar yr Arglwydd. Fel y soniodd Derek nos Sul diwethaf, d'oes dim cyfrinach, dim byd cymhleth, dim ond gwahoddiad syml. "Edifarhewch, a bedyddier pob un ohonoch yn enw Iesu Grist er maddeuant eich pechodau, ac fe dderbyniwch yr Ysbryd Glân yn rhodd. Oherwydd i chwi y mae'r addewid, ac i'ch plant ac i bawb sydd ymhell, pob un y bydd i'r Arglwydd ein Duw ni ei alw ato." Actau 2:38-39

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma Gan ei bod yn bumed Sul, ni chynhelir yr **Oedfa** arferol i'r Fro, ond mae croeso i bawb i'r oedfa yng Nghapel Bethania, Llansannan am 5.30 o dan arweiniad y Parch. Trefor Jones Morris.
- Llun **Noson Ffilm** (oedran uwchradd +) yn y Granar yn Llansannan o 5.30-7.30.
Adnabod Addoli yn y Granar am 8.00
- Mercher **Adnabod beth yw Cristnogaeth go iawn** yn y Granar yn Llansannan am 8.00.
- Iau **Cyfarfod Plant** yn Llansannan am 3.15.
Astudiaeth Feiblaidd dan arweiniad Tom Williams yn Llanefydd am 7.30
- Gwener **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Llansannan am 9.30 y bore.
Diwrnod 'Genod' yn y Bala – o 6.00 nos Wener tan 6.00 nos Sadwrn. Sarah fydd yn siarad, a chroeso i unrhyw un ymuno. Gwybodaeth gan Sarah neu Elen Elias.
- Sul nesaf Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan. Bydd **paned ac addoliad anffurfiol am 6.00**, ac yna bydd yr oedfa **am 6.30** gyda Ben Nuss yn arwain a Meirion yn pregethu.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd y Parch Dafydd Rees Roberts yn arwain oedfa yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa undebol yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

- Sul yma Cynhelir Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant am 10.00 a bydd oedfa yng Nghapel Bethania am 5.30 o dan arweiniad y Parch Trefor Jones Morris.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.
- Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain yr oedfa am 10.00, pryd y bydd Ben a Sioned Nuss yn cyflwyno eu plentyn, Ela Gwenllian, i ofal yr Arglwydd a'i Eglwys. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Mr Tom Williams yn arwain oedfa ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa undebol yn Saron am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Saron a Pheniel am 10.00.

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Cyfarfod Gweddi yn Nantglyn am 2.00 ac yn Nhanyfron am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Meirion yn arwain oedfa'r daith yn Nantglyn am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch John Owen yn arwain oedfa yn Henllan am 2.00 a'r Parch John Lewis Jones yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Elinor Owen yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 a'r Parch Bernant Hughes yn arwain oedfa yn Groes am 2.00. Bydd Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd y Parch Dafydd Job yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00, a bydd Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant yng Nghefn Berain am 2.00 gyda phaned i ddilyn. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00.
- Sul nesaf Bydd Dewi Williams yn arwain oedfa undebol yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:
Mair - ✉ mair@bryngoleu91.plus.com ☎ 01745 870632 📠 07900 627536, neu i
Meirion - ✉ m Morris3@btinternet.com ☎ 01745 870601 📠 07554 005423
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf

Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau